**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**16/7/24**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Huw P Roberts (Cadeirydd), Alwyn M Roberts, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Llinos Edwards, Beryl Hughes Griffiths (*Teams)*, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones(*Teams)*, Heledd Jones, Euros Roberts

Hefyd yn bresennol: Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

**3063 Sylwadau'r Cadeirydd** Wrth groesawu pawb i'r cyfarfod, dymunodd gwellhad buan i'r Clerc a diolchodd hithau i'r Cynghorwyr am eu cyfarchion a'r blodau, ac i bawb a oedd wedi bod o gymorth i waith y Cyngor tra y bu hi yn yr ysbyty.
Llongyfarchodd y Cadeirydd camp Meirion Evans, a'i wreiddiau yn Tŷ'n Bwlch Pennantlliw, a osododd record cneifio dros 8 awr gyda chyfanswm o791 o ddefaid.
Estynnodd y Cadeirydd gydymdeimlad y Cyngor i'r Cynghorydd Dewi Wyn Jones a'r cysylltiadau i gyd yn eu profedigaeth diweddar o golli Robin Glyn Jones.

**3064 Ymddiheuriadau:** Rhodri Jones, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd)

**3065 Datganiadau o fuddiant:** Huw Antur ym materion cyflwyno gwybodaeth 3072 – Menter Gymunedol Llanuwchllyn.

**3066 Cofnodion cyfarfod 4/6/24:** Cadarnhawyd eu cywirdeb.

**3067 Materion y Clerc :**

a) 3053iii Lee Robinson / Gethin George: anfonwyd neges eto i ofyn am ddyddiad ac amseriad cyfarfod.
b) 3056iii Swyddfa Archwilio Cymru – cytunodd y Cynghorwyr trwy ymgynghoriad e-bost i'r Swyddog Ariannol Cyfrifol dalu am Archwiliad 2020-21 a 2021-22.
c) Croeso Gaiman – Derbyniwyd neges hyfryd o ddiolch oddi wrth y 4 ymwelydd o'r Gaiman am y croeso, y profiadau a'r caredigrwydd y profwyd wrth iddynt ymweld a Llanuwchllyn ar ddechrau'r mis. Roedd bodlonrwydd mawr fod y weithred o efeillio gyda'r Gaiman wedi dwyn ffrwyth a bod Kiara, Meleri a Santiago wedi canfod llu o berthnasau iddynt yn Llanuwchllyn. Diolchwyd i bawb am eu cymorth a'u cyfraniad tuag at yr ymweliad.
   Adroddwyd am y trefniadau a derbyniwyd mantolen o'r costau. Disgwylir ateb gan Gronfa Cymunedol Parc Cenedlaethol Eryri i gais y Cyngor am grant. Cytunwyd i ddigolledi'r unigolion a dalodd am ymweliadau a chostau'r grŵp yn dilyn derbyn y grant.
   Diolchwyd i Gronfa Llesiant Eryri (Parc Cenedlaethol Eryri ) am eu nawdd gwerthfawr i'r Ymweliad, i bawb a fu'n lletya'r cyfeillion, i Carwyn Siddall am baratoi gwasanaeth hyfryd ac i bobl Llanuwchllyn a gymerodd ran yn y Cyngerdd fyth-gofiadwy.

**3068** **Cygor Gwynedd** Derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig gan Cynghorydd Gwynedd. Soniodd y Cynghorydd Alan Jones Evans fod y cais am orchymyn Clirffordd hyd ffordd Llangywer o'r Clwb Hwylio hyd at gyffordd Pantyceubren wedi bod yn llwyddiannus ac y bydd yn dod i rym ar 18/7/24. Mae'r Cynghorydd yn parhau i bwyso am argymhelliad sut yn union y bydd y Gorchymyn yn cael ei weithredu a'i rymuso.

Mae torri gwair ochrau ffyrdd ar waith. Mynegwyd gwerthfawrogiad o Adran y Priffyrdd am dorri gwair Penantlliw Mawr ar gais cyn cynhebrwng, a gofynnwyd yn garedig os yw'n bosib rhoi y rhan yma o Benantlliw Mawr i lawr am un toriad ychwanegol y flwyddyn oherwydd y rheswm yma.

Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei adroddiad a'i waith. Nodwyd hefyd fod Gorchymyn 4 yng nglyn â'r angen am ganiatâd cynllunio i newid tŷ yn dŷ gwyliau wedi ei basio yn unfrydol gan Gyngor Gwynedd.

**3069** **Is-bwyllgorau**

1. Pwyllgor Datblygu: cafwyd cyfarfod rhwng Sylfeini, Elusen Maurice Vaughan ac aelodau'r Pwyllgor Datblygu i drafod tai, ac o ganlyniad anfonodd Huw Antur at Gyngor Gwynedd i ofyn iddynt gydweithio gyda ni ar safle Maes y Pandy a'r stoc o hen dai. Diolchwyd i Huw Antur am gysylltu.
2. Mynwentydd: Yn eu cyfarfod, fe wnaeth yr Is-bwyllgor drafod geiriad sy'n berthnasol i'r ffioedd ac fe fydd yr amod o hyn ymlaen sydd yn disgrifio Ffioedd Lleol yn cynnwys "byw, gweithio neu fod yn berchennog ar eiddo o fewn y gymuned yn ystod y pum mlynedd diwethaf".
   Mae'r is-bwyllgor wedi bod yn ceisio ers cryn amser i gael gweithiwr cymwys i lefelu'r fynwent ac i ymdrin a chyrbiau. Cytunwyd i wahanu'r ddwy dasg hon a bwrw ymlaen ar fyrder i ofyn i Sion Jones wneud y gwaith ychwanegol o geisio llenwi lle nad yw'r tir yn gwbl wastad; mae cyflenwad o bridd eisoes yn barod ar gyfer y gwaith hwn.
   Cytunwyd i ofyn i'r Parchedig Carwyn Siddall atgoffa cynulleidfa angladd i fod yn ofalus os yn camu oddi ar y llwybrau.
   Cytunwyd i gyhoeddi'r ffioedd ar y wefan. O'u cymharu a ffioedd Cyngor Gwynedd, mae ffioedd y Fynwent Newydd yn rhesymol iawn.
   Derbyniwyd yr argymhellion a diolchwyd i'r Is-bwyllgor. Deallwyd mai bin gwyrdd yw'r unig ateb ymarferol ar gyfer sbwriel.
3. Bioamrywiaeth: Cafwyd adroddiad gan Rhodri Prys Jones y bu iddo gyfarfod gyda Elin Smith, Pennaeth Bioamrywiaeth Parc Cenedlaethol Eryri, i drafod y goedlan ochr bellaf i'r Fynwent Newydd. Roedd cynnig i glirio'r helyglys a'r mieri yn y goedlan eleni. Flwyddyn nesaf bydd cyllid i wneud prosiect sylweddol, gan gynnwys plant yr ysgol, a chreu ardal blodau gwyllt efo mainc, clirio'r coed a chreu llwybrau. Mae'r Cyngor eisoes wedi cytuno i dorri'r ddwy goeden wrth y fynedfa er mwyn diogelwch y cyhoedd. Cytunwyd i'r cynllun hwn.
4. Nadolig: Heb gyfarfod eto.
5. Asedau: Derbyniwyd data gan HG Web Designs am y defnydd sylweddol o'r QR ar y byrddau gwybodaeth
6. Cyllid: Nid yw'r Is-bwyllgor wedi cyfarfod yn ddiweddar.

**3070 Ystyried Materion Ariannol:** Cytunwyd i'r taliadau:-

| | | |
|---|---|---|
| Cyflog y Clerc | | |
| CThEF | 150.00 | |
| Trwsio yn y toiledau | 434.00 | |
| CCF – toiledau | 84.35 | |
| Torri gwair y Fynwent | 490.00 | |
| Bagiau cadw coed Nadolig (NHJ) | 41.97 | |
| Cynnal a chadw toiledau | 167.00 | |
| UGC – Patagonia | 450.00 | Disgwylir ad-daliad |
| CCF – toiledau | 65.30 | |
| HG Web Designs | 250.00 | gwefan y byrddau gwybodaeth |
| Papur ffotocopio Viking (BE) | 22.86 | |

- Cytunwyd i'r SAC i ddi-golledu ei hun am y papur swyddfa.
- Cytunwyd i dalu costau'r Gaiman unwaith y bydd grant y Cronfa Llesiant wedi dod mewn i'r banc.
- Gobeithir goresgyn y trafferthion i dalu Awdit Cymru yn fuan.
- Mae'r Cytundeb efo edf (trydan y toiledau) yn dod i ben yn fuan a chytunodd Alwyn M Roberts i edrych ar yr opsiynau sydd ar gael erbyn cyfarfod Medi.

**3072 Menter Gymunedol Llanuwchllyn** Derbyniwyd adroddiad Huw Antur a soniodd am Gyfarfod Blynyddol cyntaf y Fenter mis diwethaf gyda 2 aelod newydd yn cael eu dewis i'r Pwyllgor Rheoli. Mae prosiectau ar y gweill a cheisir nawdd am waith strwythurol, am baneli solar a thrafodaethau am fynedfa newydd mwy diogel. Byddai hyn yn cysylltu gyda ardal wag y fynwent a thir y Cyngor Cymuned. Nid oes cynlluniau pendant ond mae angen cael cyngor cyn creu cynllun. Mae Elfyn Llwyd yn gweithio ar ochr gyfreithiol y mater o greu lle parcio yn y darn o'r fynwent lle na bu claddu. Cytunodd y Cyngor i hyn ac i ofyn am gyngor cyn-cynllun.

**3073 Cwmni Pum Plwy Penllyn** Dywedodd Huw Antur fod Canolfan Henblas yn 10 oed a phob un o'r 10 swyddfa yn llawn. Mae'r Cwmni wedi cytuno i barhau i gyhoeddi "Y Cyfnod". Ni lwyddwyd i gael arian tuag at Drafnidiaeth Gymunedol y tro hwn.

**3074 Cynllunio:** Cytunwyd i gais NP5/71/476C - ychwanegu tŷ haul i dalcen Lloches Don.

**3075 Gohebiaeth:**

i. **Un Llais Cymru :** Pwyllgor Ardal Meirionnydd am 7.00yh Dydd Mercher 17 Gorffennaf 2024 – Llyfrgell Rydd, Dolgellau
ii. **Un Llais Cymru** Dyddiadau hyfforddiant - anfonwyd
iii. **Llywodraeth Cymru:** Ymgynghoriad - Blaenoriaethau drafft ar gyfer Diwylliant 2024-2030 – Clerc i ymateb.
iv. **Llywodraeth Cymru** Gohirio trafod Rhestrau Ymgeiswyr Etholiadol
v. **Llywodraeth Cymru :** Llythyr gan y Gweinidog Ken Skates yn gwahodd sylwadau ar 20/30 mya; mae'r penderfyniad wedi ei wneud erbyn hyn.
vi. **Parc Cenedlaethol Eryri:** Mae Dani Robertson yn cynnig cyfarfod gyda'r Clerc.

vii. **Cyngor Gwynedd** Galw am safleoedd i'w datblygu. Nid yw'n berthnasol i ni ar hyn o bryd; mae cynllun tebyg gan Parc Cenedlaethol Eryri wedi ei ohirio.
viii. **Un Llais Cymru** Zoom ar "Trafnidiaeth Gymunedol" 19/7/24 10.30-12.00
ix. **Cyngor Gwynedd:** Ymgynghoriad System Pleidlais Sengl Drosglwyddadwy Cyngor Gwynedd. Gohiriwyd trafod hwn tan gyfarfod Medi.

**3076 Materion lleol y Cynghorwyr:**

i. Cwyn am or-yrru yn ardal Pont y Pandy. Disgwylir i bobl leol gymryd sylw o'r gwyn hon er diogelwch plant a cherddwyr. Nododd y Cynghorwyr fod gor-yrru trwy'r pentref ar ei hyd yn bryder, a holwyd a ellir nodi hwn yn Saesneg hefyd yn y Cofnodion sy'n mynd i'r Cyfnod.
ii. Gordyfiant coed a changhennau ar ochr ffordd rhwng Llys Bach a Dwrnudon – cytunwyd i dynnu sylw'r Cynghorydd Alan Jones Evans at hyn.
iii. Ffordd Bryncaled ac ardal Bont Newydd – cytunwyd i dynnu sylw'r Cynghorydd Alan Jones Evans at yr angen am fwy o finiau.
iv. Neuadd: Diolchwyd am ymdrechion Cynghorwyr i gael trefn ar y profiad cyfarfod-o-bell heno. Roedd teimlad cyffredinol bod gwir angen hyfforddiant ar osod fyny Teams/Zoom ac yn y blaen – nid yn unig ar y Cyngor ond ar fudiadau eraill a allai wneud defnydd o'r dechnoleg. Cytunwyd i anfon at Bwyllgor y Neuadd i ofyn iddynt drefnu sesiwn / sesiynau hyfforddiant yn fuan.

**3077 Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf:** 3/9/2024 yn y Neuadd Bentref.